# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Iau, 31 Ionawr 2013 am 2.00 pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Raymond Bartley (Is-Gadeirydd), Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), William Cowie, Meirick Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Bobby Feeley, Carys Guy-Davies, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Colin Hughes, Alice Jones, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Margaret McCarroll, Jason McLellan, Barry Mellor, Win Mullen-James, Bob Murray, Dewi Owens, Merfyn Parry, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, David Simmons, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams, Eryl Williams a/ac Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Swyddog Monitro (GW), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PMcG), Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau (KJ) a/ac Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Brian Blakeley, Ann Davies, James Davies, Hugh Evans, Rhys Hughes, Hugh Irving, Peter Owen a Barbara Smith

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

N chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill (Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau) adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Atgoffodd yr aelodau bod y Cyngor wedi mabwysiadu cynllun newydd i roddi cymorth y dreth gyngor ar 8 Ionawr 2013. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru yna wedi newid eu rheoliadau ar 22 Ionawr ac yn rhyddhau £22 miliwn i fod ar gael i awdurdodau yng Nghymru i gynyddu amddiffyniad i drigolion a effeithir o amddiffyniad 90% i 100%.

Dywedodd y Cynghorydd Thompson-Hill bod angen i’r Cyngor fabwysiadu’r cynllun newydd erbyn diwedd Ionawr os oedd yn dymuno manteisio ar yr elfenau dewisol a oedd yn cynnig amddiffyniad uwch i drigolion.

Hysbysodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau yr aelodau y byddai Cyngor Sir Ddinbych yn derbyn £840k i ariannu’r elfennau dewisol. Cadarnhaodd bod y newidiadau hefyd yn golygu na fyddai’n rhaid i’r Cyngor anfon hysbysiadau galw am dalu i drigolion am symiau a fyddai wedi bod yn daladwy gan drigolion a effeithir, gyda'r tebygolrwydd cysylltiedig na fyddai pob swm dyledus yn cael ei adennill.

Atebodd y Swyddog Monitro gwestiwn a chadarnhaodd y sefyllfa gyfreithiol a chyfansoddiadol i’r Cyngor ailystyried penderfyniad a gymerodd yn gynharach yn y mis.

Holodd nifer o aelodau a fyddai’r cyllid ychwanegol yn ddigon i ganiatáu i’r Cyngor ostwng ei dreth gyngor y flwyddyn nesaf. Adroddodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau na fyddai’r symiau dan sylw yn cyfateb i ostyngiad o 1% yn y Dreth Gyngor ond bod y gyllideb ddrafft yn cael ei hadolygu o ganlyniad i’r incwm ac oherwydd bod costau casglu yn cael eu hosgoi. Ychwanegodd nad oedd yn sicr a fyddai Llywodraeth Cymru yn medru ariannu amddiffyniad 100% am fwy na blwyddyn, ond bod y Cyngor yn ddarbodus yn ei ystyried fel cyllid un flwyddyn yn unig.

Trafododd yr aelodau benderfyniad Llywodraeth y DU i leihau amddiffyniad yng Nghynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor, y disgwylid y byddai’n barhaol. Pe byddai Llywodraeth Cymru yn penderfynu peidio â pharhau i ariannu’r diffyg am fwy na blwyddyn yna byddai angen i awdurdodau lleol yng Nghymru ystyried a fyddai’r toriadau yn cael eu trosglwyddo i drigolion a effeithid.

Ystyriodd y Cyngor hefyd y 4 elfen ddewisol yn y cynllun newydd fesul un.

***PENDERFYNWYD -***

*(i) Bod y Cyngor yn mabwysiadu Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012, fel y’i diwygiwyd gan Reoliadau 2013;*

*(ii) Mabwysiadu rhoi cyfnod talu estynedig safonol 4 wythnos i bobl ar ôl iddynt ddychwelyd i’r gwaith, pan fyddant wedi derbyn budd-dal cymhwyso perthnasol am o leiaf 26 wythnos;*

*(iii) Bod y Cyngor yn manwysiadu’r darpariaethau dewisol i ddiystyru rhan neu’r cyfan o swm pensiynau anabledd rhyfel a phensiynau gweddwon rhyfel wrth gyfrifo incwm;*

*(iv) Bod y Cyngor yn mabwysiadu’r darpariaethau dewisol i ddarparu mwy na’r wybodaeth leiaf a ragnodir fel rhan o weithdrefnau hysbysu penderfyniadau;*

*(v) Pennu’r cyfnod pan ellir ystyried hawliadau Cymorth y Dreth Gyngor wedi eu hôl-ddyddio ar gyfer cwsmeriaid mewn oedran gwaith i 3 mis cyn hawlio, a*

*(vi) Bod grŵp gorchwyl a gorffen, yn cynnwys Arweinwyr Grwpiau, yn adolygu goblygiadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i'r dyfodol.*